## Paratoi am eich apwyntiad

Byddwch yn cael y mwyaf o'r apwyntiad os ydych:

- yn gwybod faint sydd yn eich cronfa(cronfeydd) pensiwn
- yn gwybod os oes gan eich pensiwn unrhyw nodweddion arbennig, fel cyfradd blwydd-dal gwarantedig
- wedi cael datganiad pensiwn ymddeol
- wedi meddwl faint o arian rydych ei angen ar ôl ymddeol.

Dylech dim ond dod a'ch gwaith papur diweddaraf – bydd hyn yn rhoi mwy o amser i ni drafod eich opsiynau pensiwn a chamau nesaf.

## Camau nesaf

Ar ôl eich apwyntiad, byddwch yn derbyn crynodeb ysgrifenedig o beth wnaethoch ei drafod yn ogystal ag awgrymiad o'r camau nesaf.

Gallai'r rhain gynnwys:

- siarad â'ch darparwr pensiwn am gwestiynau y gallai fod gennych
- siarad ag ymgynghorydd ariannol
- cyfarfod â sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth i gael cymorth gyda materion dyled, budd-daliadau, tai neu gyflogaeth.

## Sut i drefnu apwyntiad Pension Wise

Gallwch siarad â ni dros y ffôn neu wyneb i wyneb mewn cannoedd o leoliadau ar draws y DU.

Foniwch **0800 138 3944** neu fynd i **helpwrarian.org.uk/pensionwise** i drefnu eich apwyntiad.

Pension Wise

Ref: MH_RS0011

Pension Wise



# Eich Arweiniad i Pension Wise

Gwasanaeth gan

Helpwr Arian

Llywodraeth EM

# Am Pension Wise

Mae Pension Wise yn wasanaeth am ddim a di-duedd gan y llywodraeth. Gallwn eich helpu i ddeall y gwahanol ffyrdd y gallwch gymryd eich cronfa bensiwn.

Gallwch siarad â ni dros y ffôn neu wyneb i wyneb mewn cannoedd o leoliadau ar draws y DU.

Mae ein arweiniad yn ddi-duedd – ni fyddwn yn argymell unrhyw gynnyrch neu gwmniau ac ni fyddwn yn dweud wrthych sut i fuddsoddi eich arian.

# Cyn i chi drefnu

Mae'n rhaid i chi fod yn 50 oed neu drosodd gyda phensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio.

# Y mathau gwahanol o bensiwn

## Cyfraniadau wedi'u diffinio

Mae'r rhain yn bensiynau personol neu weithle yn seiliedig ar faint rydych chi ac o bosib eich cyflogwr wedi'i dalu i'ch cronfa. Gyda'r pensiynau hyn chi sy'n penderfynu sut i gymryd eich arian allan.

## Buddion wedi'u diffinio

Mae'r rhain hefyd yn cael eu hadnabod fel pensiynau 'cyflog terfynol' neu 'cyfartaledd gyrfa' ac maent yn seiliedig ar eich cyflog a faint o amser rydych wedi bod yn gweithio i'ch cyflogwr. I gael help â'r pensiynau hyn, ffoniwch HelpwrArian ar **0800 756 1012** neu fynd i **helpwrarian.org.uk/pensions**



# Am apwyntiadau Pension Wise

Mae apwyntiad yn sgwrs rhyngddo chi ag arbenigwr pensiynau. Byddwch yn siarad am yr opsiynau sydd gennych ar gyfer cymryd eich arian pensiwn.

Bydd eich apwyntiad yn parhau am 45 i 60 mund a byddwn yn:

- egluro eich opsiynau pensiwn
- egluro sut mae pob opsiwn yn cael ei drethu
- rhoi'r camau nesaf i chi eu cymryd.